# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 24 Mawrth 2025

Amser: 14.00 - 14.50

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/14871

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Carolyn Thomas AS (Cadeirydd)<br>Rhys ab Owen AS<br>Luke Fletcher AS<br>Joel James AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Gareth Price (Clerc)<br>Lara Date (Ail Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Datganodd Luke Fletcher AS fuddiant perthnasol mewn perthynas ag Eitem 2.1 - mae wedi gweithio gyda phreswylwyr a'r prif ddeisebydd dros y blynyddoedd diwethaf ar ymgyrch Arbed/y Rhaglen Arbed Ynni Cymunedau.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-06-1491 Rydym yn mynnu bargen deg i drigolion yr effeithir arnynt gan y cynllun Arbed/y Rhaglen Arbed Ynni Cymunedau

Cytunodd y Pwyllgor i: ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i gadarnhau'r safbwynt o ran cais y deisebwyr am ymchwiliad cyhoeddus; ysgrifennu at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i ofyn i ba raddau yr oedd wedi edrych ar y sefyllfa yng Nghaerau a sut yr oedd hynny wedi dylanwadu ar y Llywodraeth o ran ei rhaglen Cartrefi Clyd newydd; gwahodd y deisebwyr a'r cynghorydd lleol sy'n cefnogi eu hymgyrch i ddod i gwrdd â'r Pwyllgor; ac ysgrifennu at Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i ofyn am gynnydd y gwaith adfer a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Yn sgil y camau hynny y cytunwyd arnynt, byddai'r Pwyllgor yn cadw'r ddeiseb ar agor.

### 2.2 P-06-1498 Cyflwyno gwasanaeth bws o Orsaf Fysiau'r Fenni i Ysbyty'r Faenor

Yn sgil Bil masnachfreinio bysiau Llywodraeth Cymru sydd ar ddod, cytunodd y Pwyllgor i gadw'r ddeiseb ar agor a pharhau i fonitro'r sefyllfa.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-06-1352 Cymeradwyo adeiladu trydedd bont dros y Fenai

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb a pharhau i godi'r mater fel Aelodau unigol yn y Siambr.

### 3.2 P-06-1464 Caniatáu i deuluoedd Cymru sydd wedi colli baban cyn 24 wythnos gael tystysgrif colli baban

Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu eto at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ofyn am y cynnydd o ran gweithredu'r cynllun yng Nghymru. Ymrwymodd y Cadeirydd hefyd i godi'r mater yn y Siambr gyda'r Trefnydd o dan y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes.

## 3.3 P-06-1463 Parhau i ariannu swyddogion heddlu ysgolion sy'n addysgu plant ac yn cefnogi ysgolion

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu'n ôl at yr Ysgrifennydd Cyllid i ganmol Llywodraeth Cymru am ariannu'r rhaglen cyhyd ag y gwnaeth, o ystyried nad yw plismona wedi'i ddatganoli, ond i dynnu sylw at y pryderon ynghylch plismona yng Nghymru a'r broses gynllunio ac ymgynghori. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ysgrifennu at y Swyddfa Gartref i bwysleisio pwysigrwydd ariannu'r gwaith hwn yng Nghymru.

## 3.4 P-06-1475 Gwella diogelwch yr A458, Treberfedd, Powys ar frys yn sgil gyrru peryglus parhaus

Datganodd Joel James AS fuddiant perthnasol gan ei fod yn adnabod y deisebydd dan sylw. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth i ofyn am ragor o fanylion am yr astudiaeth; a ellir darparu'r amserlenni ar gyfer ei gwblhau i'r gymuned ac i'r deisebydd; a eir ati i ymgynghori â'r cyhoedd, y deisebydd a'r cyngor cymuned fel rhan o'r astudiaeth; a fydd y canlyniadau/opsiynau a gaiff eu hystyried wedyn yn cael eu rhannu gyda nhw; ac a oes amserlen yn y pen draw ar gyfer gweithredu unrhyw argymhellion neu fesurau arfaethedig. Byddai'r ddeiseb yn cael ei chadw ar agor wrth aros am ymateb.

## 3.5 P-06-1476 Clustogfa orfodol 1000 metr ar gyfer yr holl chwareli newydd a phresennol

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes a gofyn am ddadl ynghylch y ddeiseb, gan bwysleisio pwysigrwydd cynnal y ddadl cyn gynted â phosibl, a nodi bod gwybodaeth newydd bellach ar gael yn dilyn dadl Heledd Fychan ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod - Bil yn ymwneud â phrosesau cynllunio ar gyfer datblygu chwareli, a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2024.

### 3.6 P-06-1332 Ariannu ymchwil brechlyn i amddiffyn gwiwerod coch rhag feirws marwol brech y gwiwerod

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb, ond cyn gwneud hynny i ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i ofyn am ymateb i gwestiynau diweddaraf y deisebydd. Byddai'r ymateb yn cael ei anfon at y deisebydd. Cytunodd yr Aelodau hefyd i ysgrifennu at Bencampwr Rhywogaethau Cymru ar gyfer gwiwerod coch, Darren Millar AS; Alun Davies AS, a oedd wedi codi'r mater yn y Siambr; ac Aelodau Gogledd Cymru – yr ardal sydd â’r boblogaeth fwyaf o wiwerod coch – i dynnu sylw at y ddeiseb er gwybodaeth iddynt.

## 4 Papurau i'w nodi

4.1 P-06-1479 Stopio cadw plant, pobl ifanc ac oedolion ag anableddau dysgu ac awtistiaeth mewn ysbytai

4.2 P-06-1489 Deddfu i sicrhau bod briciau gwenoliaid duon yn cael eu gosod ym mhob adeilad newydd yng Nghymru

4.3 P-05-1447 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau’r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas

**4.4** P-06-1474 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau canolfannau ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 6 Adroddiad byr drafft: P-06-1380 Bathodyn glas gydol oes i unigolion sydd â diagnosis gydol oes